

Y Pwyllgor Cyllid

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

Cefndir a diben

01. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau trosiannol mewn cysylltiad â chyflwyno treth trafodiadau tir yng Nghymru yn sgil Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017. Mae'r darpariaethau yn sicrhau bod trafodiadau sy'n digwydd ar 1 Ebrill 2018 neu ar ôl y dyddiad hwnnw yn cael eu trin yn gyson, gan olygu nad yw trafodiadau yn cael eu trethu ddwywaith o dan y dreth trafodiadau tir a threth dir y dreth stamp, neu na chânt eu trethu o gwbl.
02. Mae'r Rheoliadau hefyd yn sicrhau y bydd y trefniadau a wnaed cyn 1 Ebrill 2018 a'r trefniadau hynny yr hawlwyd rhyddhad penodol ar eu cyfer (sy'n bodoli yn y ddwy weithdrefn) yn parhau i gael rhyddhad (yn amodol ar fodloni amodau penodol). Ymhellach, bydd y Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer rheolau trosiannol at ddibenion penderfynu a yw trafodiad a gwblhawyd ar 26 Tachwedd 2018 neu cyn y dyddiad hwnnw yn drafodiad eiddo preswyl cyfradd uwch lle bo prif breswylfa person yn cael ei disodli.

Y weithdrefn

03. Penderfyniad cadarnhaol.

Craffu ar y rhinweddau

04. Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Amcanion polisi

05. Datganiad ar y bwriad polisi



06. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y bwriad polisi ar gyfer y pwerau dirprwyedig o fewn y Bil.

Rheoliadau 1-2

07. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod y rheoliadau'n dod i rym ar y diwrnod y dechreuir codi'r dreth trafodiadau tir ac maent yn diffinio'r derminoleg.

Rheoliadau 3-12

08. Mae Rheoliadau 3-12 yn gwneud darpariaethau trosiannol mewn cysylltiad â chyflwyno'r dreth trafodiadau tirlenwi. Mae Adran 78(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer darpariaethau trosiannol.

09. Mae'r rheoliadau a gyflwynwyd **yn cyd-fynd** â pholisïau cysylltiedig yn y datganiad.

10. Roedd y Rheoliadau yn nodi bod Adran 76(1) o'r Bil yn datgan: "Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed sy'n briodol yn eu barn hwy at ddibenion unrhyw ddarpariaeth a weir gan y Ddeddf hon neu oddi tani, neu mewn cysylltiad â hi, neu er mwyn rhoi effaith lawn iddi".

Gwaith craffu Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid

11. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Ymgynghoriad y Cynulliad

12. Gwnaed nifer o sylwadau ynghylch y **diffyg darpariaethau trosiannol** yn y Bil.

13. Dywedodd y Gofrestrfa Dir ei bod, ynghyd â thrawsgludwyr, am fod angen **canllawiau ynghylch trefniadau trosiannol** ar gyfer trafodiadau sydd â chontractau wedi eu cyfnewid ar eu cyfer cyn y dyddiad y daw'r Bil i rym, ond heb eu cwblhau tan ar ôl y dyddiad hwnnw. Dywedodd y Gofrestrfa na allai weld unrhyw gyfeiriad at drefniadau trosiannol yn y Bil.

14. Dywedodd y Sefydliad Siartredig ar gyfer Trethiant yn ei ymateb: "Section 76 provides a power to make further ancillary changes to give full effect to the Bill. Is



this section intended to provide for the enactment of transitional provisions? Otherwise there is no mention of transitional measures.”

15. Pwysleisiodd Deloitte: “there are no transitional rules in the Act and **we would expect that**, as with LBTT, a statutory instrument will be passed setting out the detailed rules to ensure that transactions that interact with SDLT do not result in double taxation. We wonder if there **should be an express power to pass such regulations** in clause 79 as contained in the equivalent clause in Section 70(3) of the LBTT (Scotland) Act 2013.”

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

16. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Rheoliadau yn yr Alban

Rheoliadau 3–12

17. Mae'r Rheoliadau yn gyson â Gorchymyn Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (Darpariaethau Trosiannol) (Yr Alban) 2014.

Rheoliadau'r DU

18. Dim deddfwriaeth gyfatebol ar gael.

Ymateb y Llywodraeth

19. Ni chodwyd unrhyw bwyntiau o dan ‘craffu ar rinweddau’.

20. Er bod y rheoliadau hyn yn cyd-fynd yn fras ag effaith Gorchymyn Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (Darpariaethau Trosiannol) (Yr Alban) 2014, mae yna rai gwahaniaethau cynnil. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhai mân wahaniaethau o ran geiriad nad ydynt yn newid effaith y rheoliadau perthnasol;
- rhai rheoliadau neu eiriau sy'n ymwneud â materion sy'n benodol i'r Alban, a;
- cynnwys rheol drosiannol yn rheoliadau Cymru (rheoliad 12) i roi effaith i'r un rheol drosiannol ag yr oedd treth dir y dreth stamp yn ei chynnwys pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn cyflwyno cyfraddau uwch ar gyfer



anheddau ychwanegol ac anheddau a brynir gan gwmnïau ym mis Tachwedd 2015 (trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch yn y dreth trafodiadau tir).

Safbwynt y Pwyllgor

21. Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau.

